Cwestiynau cyffredin gan Feddygon mewn gwaith Llai na Llawn Amser (LTFT)

Diolch i'r holl Feddygon sydd wedi rhoi cwestiynau gerbron drwy gyfrwng y gweminarau neu yn sgil dychwelyd eu gwaith papur cyfrifiad. Isod ceir detholiad o gwestiynau a ddaeth i law sydd wedi'u rhannu i'r categorïau cyffredinol canlynol (cliciwch ar gategori i neidio i adran):

Cyfrifiad	2
Agoriadau ymgeisio LTFT:	2
Absenoldeb Mamolaeth	3
Patrwm gwaith, y tu allan i oriau a gwyliau blynyddol	4
Ystyriaethau ar sail cyflog wrth ddewis gweithio ar gyfradd LTFT	6
Ystyriaeth ar gyfer dilyniant hyfforddiant	7
Sut mae LTFT yn effeithio ar leoliadau hyfforddiant Sylfaenol?	8
Sut mae LTFT yn gweithio gydag OOP	8

Ymdrinnir yn fanwl â'r holl destunau hyn yn y polisi. Mae'r Cwestiynau Cyffredin isod yn ymdrin ag amgylchiadau hyfforddeion penodol.

Rhagfyr 2022

Cyfrifiad

1. **A ddylwn i ddefnyddio'r cyfrifiad i adnewyddu os ydw i'n gweithio ar gyfradd LTFT ar hyn o bryd?**

   Dylech fod wedi cwblhau'r cyfrifiad os ydych chi'n Feddyg mewn swydd LTFT gymeradwy ar hyn o bryd. Ymestynnwyd y dyddiad cau ar ei gyfer hyd at Ragfyr 18 2022. Rydym yn y broses o gadarnhau canlyniadau'r cyfrifiad gyda TPD arbenigol unigol i ategu'ch gwybodaeth. Os na gwblhaoch y cyfrifiad, bydd eich TPD yn cysylltu â chi i ofyn i chi ei gwblhau. Rhydd hyn y fantais ichi o beidio gorfod llenwi unrhyw waith papur adnewyddu pellach. Os nad ydych yn dymuno aros ar gyfradd LTFT o Chwefror 2023 ymlaen dylech roi gwybod i'ch TPD cyn gynted â phosib. Os ydych yn bwriadu aros ar gyfradd LTFT y tu hwnt i Awst 2023 dylech gwblhau cais yn ystod agoriad mis Chwefror. Cwblhau'r cyfrifiad fyddai'r opsiwn gorau i chi.

2. **Oes angen i mi gwblhau'r cyfrifiad os nad ydw i wedi dechrau ar gyfradd LTFT eto?**

   Os nad ydych ar gyfradd LTFT ar hyn o bryd, PEIDIWCH â chwblhau'r cyfrifiad ond cyflwynwch gais ar yr hen system hyd at Ionawr 31 2023 ar gyfer swyddi sy'n dechrau cyn mis Awst 2023, neu ar y system newydd o agoriadau ymgeisio ar gyfer swyddi sy'n dechrau ar ôl Awst 2023. Mae manylion llawn yr agoriadau ymgeisio i'w gweld ar dudalen we LTFT AaGIC a'r polisi Peilot LTFT (tudalen sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd).

3. **Rydw i ar hyn o bryd yn gweithio'n Llawn Amser ac yn bwriadu gweithio ar gyfradd LTFT y flwyddyn nesaf – a ddylwn i gwblhau'r cyfrifiad?**

   Peidiwch â chwblhau'r cyfrifiad. Trafodwch eich cynlluniau gyda'ch TPD ac yna cyflwynwch gais yn ystod agoriad ymgeisio mis Chwefror.

4. **Rydw i wedi cyflwyno ffurflen gais ar yr hen system, ond tydw i heb glywed p'un a ydw i wedi bod yn llwyddiannus ai peidio – a ddylwn i gwblhau'r cyfrifiad?**

   Peidiwch â chwblhau'r cyfrifiad. Anfonwch e-bost at eich TPD i wirio cynnydd eich cais.

5. **A fydd gofyn i mi wneud cais am LTFT bob blwyddyn?**

   Na fydd. Os ydych wedi cwblhau'r cyfrifiad byddwch wedi cofrestru i ddatgan eich dymuniad i aros ar gyfradd LTFT hyd at ddiwedd eich rhaglen. Dylai hyfforddeion sy'n dymuno cynyddu neu gwtogi eu horiau gwblhau cais newydd yn ystod yr agoriadau ymgeisio penodedig.

Agoriadau ymgeisio LTFT:

6. **A yw'r agoriad ymgeisio yr un fath ar gyfer hyfforddeion sy'n cylchdroi ym mis Medi a Thachwedd?**
   Mae'r agoriadau ymgeisio yr un fath pa bynnag amser o'r flwyddyn rydych chi'n cylchdroi. Dylai arbenigeddau sy'n cylchdroi ym mis Medi, sydd â dyddiad cychwyn LTFT disgwyliedig rhwng Awst 2023 a Ionawr 2024, wneud cais yn ystod agoriad ymgeisio mis Chwefror.

7. **Beth os na chaiff fy ngwaith papur ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau neu o fewn yr agoriad ymgeisio gofynnol?**

   I sicrhau tegwch i bawb sy'n rhan o'r broses LTFT, rhaid cyflwyno ceisiadau yn ystod yr agoriadau ymgeisio LTFT cyhoeddedig. Ni fydd unrhyw gais yn cael ei dderbyn oddi allan i'r agoriad hwn. Bydd AaGIC ynghyd â'r TPD a'r sefydliad lletyol ond yn caniatáu amgylchiadau iechyd eithriadol oddi allan i'r agoriad ymgeisio LTFT NEU ymgeiswyr sy'n gwneud cais o fewn agoriad ymgeisio Recriwtio Cenedlaethol penodol ar gyfer rhaglen hyfforddiant 'newydd' yng Nghymru.

8. **Rydw i'n ymgeisydd newydd ar gyfer LTFT – faint o amser a gymerir i brosesu fy nghais?**

   Os byddwch yn gwneud cais yn ystod agoriad ymgeisio mis Chwefror, byddwn yn gyntaf oll yn cydnabod bod eich cais wedi'i dderbyn. Bydd rheolwyr rhaglenni a TPD ar draws yr holl arbenigeddau'n adolygu pob cais newydd ac yn adolygu eu rhaglenni. Caiff y wybodaeth hon ei blaenyrru i Fyrddau Iechyd a fydd yn ymateb i ni o fewn pythefnos. Byddwn yn cadarnhau gyda chi ar ôl Mai 10 2023 p'un a ydy eich cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Weithiau mae modd inni rannu gwybodaeth yn gynt na hyn yn achos arbenigeddau llai sydd â llai o ymgeiswyr.

9. **Beth os gwrthodir fy nghais LTFT?**

   Byddwn yn cysylltu â chi os na allwn ddyrannu slot ar y cyd ichi, neu os nad yw'r sefydliad lletyol yn gallu darparu ar eich cyfer mewn swydd â llai o oriau.

   Byddwn yn trafod opsiynau eraill gyda chi a'ch TPD ar gyfer lleoliad h.y. mewn ysbyty arall.
   Fel yr amlinellir yn y polisi, pe na bai capasiti digonol ar eich cylchdro neu bod prinder arian i gefnogi slot ar y cyd, byddem yn cynnal rhestr aros ar gyfer hyfforddeion sy'n dymuno gweithio ar gyfradd LTFT.

   Mae gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Mae'r broses apelio wedi ei hamlinellu yn y polisi.

Absenoldeb Mamolaeth

10. **Mae'n ymddangos bod yr agoriad ymgeisio ar gyfer hyfforddeion ar gyfnod mamolaeth yn anhyblyg iawn ac nid ydw i wedi dod i gasgliad pryd y byddaf yn dychwelyd i'r gwaith – a fydd unrhyw newid i'r agoriadau ymgeisio presennol?**

    Rydym yn cydnabod bod newidiadau amgylchiadau tra ar gyfnod mamolaeth; os ydych yn ymgymryd ag absenoldeb mamolaeth ac yn awyddus i gyflwyno'ch cais yn ystod agoriad ymgeisio cynharach, mae modd ichi wneud hynny. Rydym yn gofyn i hyfforddeion geisio rhagdybio eu dyddiad dychwelyd a'r swm o absenoldeb blynyddol cronnus y mae'n rhaid iddynt ei gymryd. Unwaith iddynt gloriannu hyn, mae'n pennu dyddiad dychwelyd i'r gwaith / hyfforddiant disgwyliedig y gellir ei ddefnyddio i nodi a chynllunio eich dyddiad cychwyn LTFT. Byddwn yn cyflwyno'r polisi peilot hwn am gyfnod o flwyddyn ac yn adolygu p'un a yw'r agoriadau ymgeisio'n gweithio'n effeithiol.

11. Rydw i ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd; rydw i wedi cronni gwyliau blynyddol o wyth wythnos ar ddiwedd fy nghyfnod mamolaeth ac yn bwriadu mynd ar gyfradd LTFT ar ôl hyn – beth ddylwn i ei nodi ar y ffurflen gais?

Byddech yn nodi'ch dyddiad cychwyn LTFT ar ddiwedd yr wyth wythnos o absenoldeb cronnus.

Dylai hyfforddeion nodi bod gwyliau blynyddol yn cyfrif fel amser hyfforddi / amser o fewn y rhaglen. Gall absenoldeb mamolaeth rheolaidd gydag absenoldeb blynyddol cronnus gwtogi'ch amser hyfforddi yn sylweddol. Dylai hyfforddeion ystyried hyn wrth gynllunio modiwlau a bwrw amcan o'u dyddiadau gorffen ar y rhaglen hyfforddiant.

Ar gyfer Meddygon Teulu dan Hyfforddiant, dylid nodi bod Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) o'r farn, os na all y cyfnod o absenoldeb gyfrannu at hyfforddiant, na ddylai'r absenoldeb a gronnir yn ystod yr absenoldeb gyfrannu ychwaith. Felly, ni all gwyliau blynyddol sydd wedi'u cronni tra nad yw'r meddyg teulu dan hyfforddiant (h.y. ar absenoldeb mamolaeth neu gyfnodau hir o salwch) gyfrif tuag at raglen hyfforddi.

Patrwm gwaith, y tu allan i oriau a gwyliau blynyddol

12. Rydw i'n dewis newid fy statws LTFT yn ddibynnol ar ble mae fy lleoliad. Sut ydw i'n gallu gwneud hyn o fewn y system bresennol?

Rydym yn gweithio gyda'n TPD i'w helpu i gynllunio eu cylchdroadau flwyddyn ymlaen llaw. Nid ydym yn annog hyfforddeion i newid eu canran LTFT yn aml ar gyfer amseroedd teithio ond yn eu hannog i gynnal canran o waith sy'n caniatáu iddynt gylchdroi rhwng pob ysbyty ar eu cylchdro. Dewiswch ganran sy'n eich galluogi i wneud hyn.

Mae hyd yn oed newidiadau bach o ran canran yn cael sgil-effaith sylweddol ar gyfer slotiau ar y cyd a chyllid sydd angen ei rag-gynllunio.

13. Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio X % ond yn dymuno newid fy nghanran LTFT o fis Mawrth 2023 ymlaen – beth ddylwn i ei wneud?

Fel yr amlinellir yn y polisi a'r llythyr a anfonwyd at hyfforddeion ym mis Tachwedd 2022, rhaid i chi gwblhau cais newydd ar yr hen system cyn gynted â phosibl.

Os na fyddwch yn gwneud hyn cyn 31 Ionawr 2023 – yna bydd angen i chi wneud cais yn ystod yr agoriad ymgeisio ond ni fydd y newid yn eich statws LTFT yn dod i rym cyn mis Awst 2023.

14. Ar hyn o bryd mae gen i batrwm o ddyddiau gwaith sefydlog ond bydd y diwrnod addysgu'n newid yn fy lleoliad newydd. Pwy ddylwn i ei hysbysu am fy niwrnodau gwaith diwygiedig?

E-bostiwch eich TPD, swyddfa LTFT, NWSSP a threfnydd rota eich sefydliad lletyol gyda'ch diwrnodau gwaith diwygiedig.

15. Sut mae cysylltu â'r sefydliad lletyol ynglŷn â diwrnodau gwaith?

Unwaith y bydd eich LTFT wedi'i gymeradwyo byddwch yn derbyn llythyr yn cadarnhau hyn gyda manylion cyswllt aelod o'r sefydliad lletyol. Bydd lleoliadau hyfforddeion sydd eisoes yn y system, sy'n cylchdroi rhwng safleoedd, yn cael eu diweddaru ar *Intrepid*. Mae'r rhestr o aelodau cyswllt y sefydliadau lletyol i'w gweld ar hafan LTFT AaGIC (tudalen sy'n cael ei diwygio ar hyn o bryd).

16. Oes ots pa ddiwrnod rydw i'n dewis ei gael yn rhydd mewn wythnos benodol, wrth i mi gylchdroi fy nyddiau rhydd.

Oes, mae'n bwysig pa ddyddiau sy'n cael eu dewis i fod yn rhydd. Mae dyddiau addysgu rhanbarthol a lleol yn dilyn amseroedd gosodedig. Yn ddelfrydol, dylech sicrhau bod un o'ch diwrnodau gwaith yn cwmpasu'r digwyddiadau addysgol hyn. Yn dibynnu ar y meddygon LTFT eraill ar eich rota, neu eich partner slot ar cyd, efallai y bydd angen i chi drafod y dyddiau rydych yn gofyn amdanynt yn rhydd. Dylid gwneud hyn trwy gyfrwng cydlynydd rota / adran weithlu'r sefydliad lletyol. Mae rhestr o aelodau cyswllt i'w gweld ar dudalen gartref gwefan AaGIC.
Dylid rhannu gwaith y tu allan i oriau, gan gynnwys sifftiau nos a phenwythnos, ar sail pro rata gyda'r Meddygon sy'n gweithio'n llawn amser.

17. Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio ar gyfradd o 70% ond rydw i'n dymuno newid i 100% cyn gynted â phosibl – beth ddylwn i ei wneud?

Yn unol â'r polisi, parthed unrhyw newid yr hoffech ei wneud—dylech roi gwybod i'ch TPD am eich bwriad. Dylech wneud cais drwy gyfrwng yr hen system cyn Ionawr 31 2023 ac yn ystod yr agoriadau ymgeisio o 1 Chwefror ymlaen ar gyfer LTFT. Efallai y bydd cynyddu % o waith o fewn eich arbenigedd yn gofyn i chi aros hyd nes bod bwlch yn y cynllun hyfforddi'n dod i'r amlwg os oes llawer iawn o hyfforddeion LTFT.

18. Pa gyfran o waith 'ar alwad' fydd gen i?

Unwaith eto, dylai hyn fod ar gyfradd pro rata ac mae'n gofyn cwmpasu cyfran o'r holl sifftiau y tu allan i oriau yn unol â'r ganran o'r amser a weithir mewn cyfanswm. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd gofynion gwasanaeth / cyllido. Gall sefydliadau lletyol gysylltu â hyfforddeion i bennu canran gwaith 'y tu allan i oriau' gwahanol.

19. Ydy fy hawl i wyliau blynyddol yn gyfystyr â hawl hyfforddai llawn amser?

Darperir gwyliau blynyddol ar sail pro-rata. e.e. byddai gan y rhai sy'n gweithio LTFT 60% hawl i 60% o'r lwfans gwyliau blynyddol. Bydd gwyliau banc hefyd ar sail pro-rata.

Ystyriaethau ar sail cyflog wrth ddewis gweithio ar gyfradd LTFT

20. Drwy symud i LTFT a fydd fy nghyflog yn cael ei effeithio?

Bydd eich cyflog yn lleihau ar gyfradd gymesur. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar yr OOH a weithir a'r system fandio yn y sefydliad lletyol. Dylech ystyried hyn ym mhob un o'r ysbytai rydych chi'n cylchdroi iddyn nhw; mae gostyngiad o 20% yn eich cyflog net, er enghraifft, yn leihad sylweddol mewn incwm bob mis. Dylech hefyd ystyried yr effaith hirdymor y bydd hyn yn ei chael ar gyfraniadau pensiwn.

21. Sut mae darganfod fy mand cyflog?

Mae cyflogau hyfforddeion LTFT yn hynod ddibynnol ar oriau ac, yn sgil y gwahanol drefniadau contract, gallant amrywio o'r naill ran i'r llall mewn cylchdro. Mae'r dull o gyfrifo cyflog ar gyfer hyfforddeion LTFT i'w weld yn y canllawiau cenedlaethol canlynol gan Gyflogwyr y GIG; Cyflog teg ar gyfer hyfforddiant meddygol hyblyg. Bydd eich sefydliad cyflogi yn gallu'ch cynorthwyo gydag ymholiadau cyflog. Mae'n hanfodol eich bod yn cynllunio'ch trefniadau rota newydd ymhell cyn dechrau hyfforddiant LTFT.

22. A all meddygon LTFT ymgymryd â shifftiau locwm?

Mae gan feddygon LTFT yr un hawl i sifftiau locwm â meddygon llawn amser.

Rhaid i feddygon ddatgan ar eu Ffurflen R y nifer o sifftiau locwm a weithir. Dylai hyfforddeion drafod eu cynlluniau i ymgymryd â gwaith locwm gyda'u Goruchwyliwr Addysgol (GA) a TPD. Yn achos meddygon sy'n gweithio sifftiau locwm, sy'n mynd y tu hwnt i ofynion oriau eu swydd Cyfwerth ag Amser Cyflawn, mae'n bosib y bydd y TPD yn gofyn am sgwrs â nhw i drafod a fyddai gwaith llawn amser yn gweddu'n well iddynt.

Dylai hyfforddeion sy'n gweithio ar gyfradd LTFT ar sail iechyd a lles ystyried effaith gweithio sifftiau locwm ar eu hiechyd a'u lles.

Mae gweithio'n hyblyg a gweithio ar gyfradd LTFT yn gysyniadau gwahanol. Efallai y gellir gwneud addasiadau rhesymol i'ch rota waith i'ch galluogi i weithio'n llawn amser. Gellir trafod hyn gyda'ch TPD a'ch cyflogwr.

Ystyriaeth ar gyfer dilyniant hyfforddiant

23. Trwy symud i LTFT, a fydd fy rhaglen hyfforddiant yn cael ei hymestyn?

Bydd—bydd eich amser o fewn y rhaglen hyfforddiant yn cael ei ymestyn. Nodir amser dangosol o fewn y rhaglen yn y tabl isod:

%WTE	Sesiynau	6 mis	12 mis	18 mis	24 mis	30 mis	36 mis
50%	5 sesiwn yr wythnos = 6 mis y flwyddyn	12 mis	24 mis	36 mis	48 mis	30 mis	72 mis
60%	6 sesiwn yr wythnos = 7.2 mis ym mhob blwyddyn	10 mis	20 mis	30 mis	40 mis	50 mis	60 mis
70%	7 sesiwn yr wythnos = 8.4 mis mewn blwyddyn	8.5 mis	17 mis	25.5 mis	34 mis	42.5 mis	51 mis
80%	8 sesiwn yr wythnos = 9.6 mis ym mhob blwyddyn	7.5 mis	15 mis	22.5 mis	30 mis	37.5 mis	45 mis

Bydd y mwyafrif helaeth o hyfforddeion yn parhau i gael ymestyniad i'w rhaglen. Dylai'r rhai sy'n dymuno lleihau eu hamser tra'n gweithio llai o oriau wneud cais am gyflymiad hyfforddiant. Mae'r colegau meddygol brenhinol yn wahanol o ran eu dull o ymdrin â hyn felly ewch i fwrw golwg ar eu gwefannau perthnasol. Er bod sawl cwricwla wedi mabwysiadu system sy'n seiliedig ar gymhwysedd, mae'n angenrheidiol i gyflymiad hyfforddiant gael ei gymeradwyo – boed ar gyfradd LTFT neu lawn amser – drwy'r broses ffurfiol a'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr ARCP.

24. Rydw i wedi methu arholiad ac felly'n debygol o fod angen estyniad hyfforddiant; a fydd modd imi weithio ar gyfradd LTFT yn ystod fy estyniad?

Dylech drafod eich aflwyddiant arholiad gyda'ch TPD ac ystyried pryd y gallech ailsefyll yr arholiad. Byddwch yn cael cefnogaeth estyniad yn achos aflwyddiant mewn arholiad hyd at adeg yr arholiad (i'w ailsefyll), lle byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu eto. Gan gymryd eich bod ar hyn o bryd ar gyfradd LTFT bydd modd ichi barhau i weithio LTFT yn ystod eich estyniad ar gyfer y cyfwerthedd pro rata. E.e. os yw'r arholiad ymhen tri mis gallwch weithio ar gyfradd LTFT yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw'r estyniad yn gyfnod penodol o amser, mae'n ddibynnol ar anghenion yr hyfforddai hyd at uchafswm lwfans. Gellir gweld manylion am hyn yn *The Gold Guide*. Os nad ydych eisoes ar gyfradd LTFT, byddai angen i chi wneud cais yn ystod yr agoriad ymgeisio safonol.

25. A fydd gen i ARCP blynyddol os ydw i'n gweithio ar gyfradd LTFT?

Bydd meddygon llai na llawn amser yn wynebu ARCP ar adegau pan fo angen gwneud penderfyniadau'n ymwneud â dilyniant hyfforddiant a dylid eu hasesu o leiaf unwaith y flwyddyn. Ni ddylid gadael bwlch mwy na 15 mis i hwyluso ail-ddilysiad. O ganlyniad, bydd meddygon LTFT dan hyfforddiant yn wynebu mwy o ARCP na meddygon dan hyfforddiant llawn amser.

26. Ydyn ni'n cael yr un cyfnod gras ar ôl CCT?

Ydych, mae'n dal i fod wedi chwe mis; mae'n parhau i fod yn ôl disgresiwn y Deon Ôl-raddedig. Nid oes gan feddygon teulu dan hyfforddiant gyfnod o gras.

Sut mae LTFT yn effeithio ar leoliadau hyfforddiant Sylfaenol?

27. Sut mae ymgeisio am LTFT yn effeithio ar leoliadau'r cynllun Sylfaenol?

Mae'r lleoliadau Sylfaenol yn bedwar mis o hyd. Dylai hyfforddeion ddisgwyl i'w lleoliadau gael eu hymestyn yn y modd canlynol, yn dibynnu ar y ganran a weithiwyd

% hyfforddiant	50%	60%	70%	80%
Bloc 4 mis	4 mis	4 mis	4 mis	4 mis
Cyfwerthedd LTFT	8 m	6.5 mis	5.2 mis	4.8 mis

Sut mae LTFT yn gweithio gydag OOP

28. Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio ar gyfradd LTFT ac yn rhagweld OOPE ym mis Awst 2023; a oes angen i mi ailymgeisio am LTFT yn ystod fy OOPE?

Mae'n hanfodol eich bod yn mynegi'ch dymuniadau i'r TPD unwaith i'ch OOPE/T/C gael ei gymeradwyo. Os ydych wedi nodi yn eich cyfrifiad eich bod yn dymuno aros ar gyfradd LTFT, byddwn yn parchu'r un trefniant ar eich dychweliad. Os ydych chi, yn ystod eich OOP, yn dymuno newid eich trefniadau gwaith dylech gyflwyno cais newydd o fewn yr un amserliniau â hyfforddeion eraill ar y cylchdro (agoriadau Chwefror ac Awst)

29. Ar hyn o bryd rydw i'n gweithio ar gyfradd LTFT ac wedi llwyddo i gael Cymrodoriaeth OOP yr wyf yn bwriadu ei gwasanaethu'n llawn amser – pwy ddylwn i ei hysbysu am hyn?

Os ydych yn bwriadu defnyddio'ch OOP i gyfrannu at eich amser hyfforddi, bydd angen i chi hysbysu'ch TPD a'ch coleg meddygol brenhinol am eich newid statws fel y gallant ddarparu ar gyfer hyn wrth gyfrifo dyddiad dyfarnu'ch CCT. Os hoffech newid eich oriau gwaith ar ôl dychwelyd o fod OOP dylech ailgyflwyno cais newydd. Byddir yn cymryd yn ganiataol eich bod yn dychwelyd i'r rhaglen i ymgymryd â'r un % o oriau gwaith os na chaiff gwaith papur ei gyflwyno.

30. Hoffwn ddychwelyd i waith llawn amser ym mlwyddyn olaf fy nghylchdro – sut mae gwneud hyn drwy gyfrwng y system newydd?

Dylech drafod eich bwriadau â'ch GA a'ch TPD, yn ystod eich blwyddyn olaf ond un (neu cyn gynted â phosibl), o ran dychwelyd ar gyfradd lawn amser yn eich blwyddyn derfynol. Yn dilyn hyn, cyflwynwch gais yn ystod yr agoriad ymgeisio.